Hyfforddiant Pendantrwydd Iaith gyda Cwmni Iaith

Mae Mudiad Meithrin yn cydweithio efo Cwmni Iaith i beilota hyfforddiant pendantrwydd iaith a meithrin hyder ieithyddol – LISTEN

Mae gan ieithoedd cyd-swyddogol, ieithoedd sydd mewn perygl, ieithoedd cynhenid, a ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol (IRhLl) un peth yn gyffredin: **mae eu siaradwyr yn tueddu i newid i'r iaith fwyafrifol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd penodol**. Maen nhw'n gwneud hynny pan mae siaradwr y brif iaith o gwmpas, neu pan maen nhw'n mynd at berson diarth, neu pan maen nhw'n mynd i'r siopau neu i weithio.

Lle na chefnogir yr iaith leiafrifol yn swyddogol, gall y newid o un iaith i'r llall fod yn gyflymach ac yn amlach.

Beth yw'r hyfforddiant?

Mae prosiect LISTEN yn **treialu** rhaglen hyfforddi sy'n **helpu siaradwyr ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol** i fynegi eu hunain yn eu **hiaith eu hunain** tra'n teimlo'n dawel ac yn **hunan-sicr**.

- Bydd yr hyfforddiant yn **cynnig strategaethau** pan fydd pobl yn ansicr a yw eu cymheiriaid yn siarad yr un iaith.
- Bydd y **fethodoleg** hon yn cael ei chefnogi gan ddeunydd darllen, fideos, ac adnoddau.
- Prif ganlyniad y prosiect LISTEN fydd **datblygu methodoleg ar gyfer addasu cysyniad 'hyder ieithyddol'** (language assertiveness) i sefyllfaoedd penodol a **datblygu cyrsiau** ar gyfer siaradwyr ieithoedd lleiafrifol.

Mae consortiwm prosiect LISTEN yn cynnwys **Prifysgol València** (Sbaen)**, Prifysgol Sapientia** (Romania), **Consiglio Nazionale delle Ricerche** (Yr Eidal), I**AITH: y ganolfan cynllunio iaith** (Cymru), **Afûk** (Fryslân/Friesland), **Conradh na Gaeilge** (Gogledd Iwerddon) ac **ELEN** y Rhwydwaith Cydraddoldeb Iaith Ewropeaidd.

Cewch ragor o fanylion am y prosiect ar wefan LISTEN

https://listen-europe.eu/cy/hafan/

Dyddiadau Hyfforddiant

Cohort 1

16 Ebrill, 20 Ebrill a 6ed Mai
– 9.30-1pm

Cofrestrwch yma

Cohort 2

18 Mai, 27 Mai a 10fed Mehefin
– 9.30-1pm

Cofrestrwch yma